

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07896964120

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

## Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

6/3/18

### *Gohiriwyd cyfarfod 1/3/18 oherwydd eira*

**Presennol:** Y Maer Dorothi Evans, Rhys Evans, Ivora Jones, Tony Parry, Alun Price, Edith Roberts, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Lis Puw (*Clerc*).

**Ymddiheuriadau:** Eifion Roberts, Sharon Evans, Dilys Evans, Dilwyn Morgan (*Cynghorydd Gwynedd*)

- Croeso:** Dangosodd y Maer eitemau o gynnwys y sêff hynafol yn adeilad Banc Barclays sydd wedi eu trosglwyddo i eiddo'r Cyngor Tref. Bydd y sêff ei hun hefyd yn cael ei throsglwyddo. Er bod yr eitemau hyn yn *eiddo* i'r Cyngor Tref, mae ymholiadau yn cael eu gwneud gyda'r bwriad i'w rhoi ar fenthg ar gyfer eu harddangos naill ai yn "Byd Mary Jones" neu yn Llyfrgell Ysgol y Berwyn. Y bwriad ydyw sicrhau eu bod yn aros yn Y Bala, pa le bynnag fydd eu hunion lleoliad.
- Buddiant:** Derbyniwyd datganiad buddiant gan Alun Price ym mater rhif 4 (morglawdd Llyn Tegid) a gan Rhys Evans ac Eluned Jones yn eitem rhif 11.iii (Cyfraniadau Ariannol)
- Derbyniwyd** ymddiheuriad gan gynrychiolwyr o Gyfoeth Naturiol Cymru am fethu cyrraedd Y Bala i roi cyflwyniad at y cynlluniau i godi morglawdd Llyn Tegid yn uwch oherwydd y tywydd.
- Cyhoedd:** Derbyniwyd cyflwyniad gan aelod o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda, sef y cynlluniau i godi morglawdd Llyn Tegid. Amlinellwyd pryderon yng nghylch y cynllun. Diolchwyd am y sylwadau.

*Yn ddiweddarach cytunwyd i ofyn am grynodeb o fwriadau CNC a'r effaith ar y dref a'r ardaloedd o amgylch y llyn; gofynnir am yr wybodaeth hon ymlaen llaw trwy e-bost i'w gylchredeg ymhlith y Cynghorwyr cyn i gynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.*

5. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 1/2/18.

### 6. Materion y Clerc:

- Offer Technegol Cymunedol – cytunwyd i'r Clerc drafod ymarferoldeb gwneud cais am yr offer gyda Phartneriaeth Penllyn ac i weithredu yng ngoleuni'r drafodaeth honno.
- O gyfarfod Chwefror: Bydd yr Heddlu yn galw mewn i gyfarfod o'r Cyngor pan fyddant ar gael; mae Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o'r angen i ail-wisgo Heol Ffrydan a bydd y gwaith yn cael ei wneud yn y dyfodol; mae trefniadau

---

Arwyddwyd.....(Maer).....(Clerc)

Gŵyl Chwaraeon Y Bala yn awr o dan ofal trefnwyr newydd ac mae cyfarfod wedi ei gynnal gyda busnesau'r dref.

- iii. Rhoddodd y Clerc Adroddiad o'r Panel a fynychodd yng Nghaernarfon a roedd yn ystyried dyfodol cynghorau cymuned a thref. Rhodri Glyn Thomas oedd Cadeirydd yr ymgynghoriad, ar ran Llywodraeth Cymru. Roedd canmoliaeth i waith Partneriaeth Penllyn a chydabyddiaeth cyffredinol fod rhwystredigaethau yn atal Cynghorau Cymuned a Thref rhag gweithredu'n effeithiol yn lleol. Awgrymwyd creu Fforwm rhwng y Cyngor Sir a'r Cynghorau lleol er mwyn hyrwyddo datganoli cyfrifoldebau. Dylai unrhyw ddatganoli dderbyn cymorth cyfreithiol, ymarferol ac incwm wrth drosglwyddo cyfrifoldebau. Roedd cefnogaeth i ddatganoli cyllid yn uniongyrchol o'r Llywodraeth i'r cynghorau cymuned a thref.
- iv. Bydd **cynrychiolaeth y Cyngor** ar bwyllgor Ardal Un Llais Cymru ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

**7. Toiledau Cyhoeddus:** Dim datblygiad diweddar.

**8. Lloches bws:** Rhoddodd y Clerc adroddiad ar gyfarfod a gynhaliwyd rhwng y Dirpryw Faer a'r Cynghorydd Sir gyda Iolo Tegid a chynrychiolydd o gwmni llochesi bws. Nododd Iolo Tegid lle byddai'r man parcio anabl wrth yr Eglwys Gatholig a thrafodwyd y math o loches a fyddai'n gweddu i'r man lle mae'r bws yn stopio. Yn y cyfamser derbyniwyd prisiau eraill er mwyn cymhariaeth. Rhagwelir y bydd y lloches yn costio tua £9,000, ond roedd y Cynghorwyr yn ymwybodol fod trigolion wedi bod yn galw am loches ers blynddoedd ac y bu rhwystrau yn ffordd y Cyngor rhag symud ymlaen gyda'r mater. Rhoddwyd ystyriaeth i wahanol ddyluniadau a phrisiau a chytunwyd i holi a fyddai pris cwmni Chiltern Shelters yn parhau dros gyfnod ceisio caniatâd gan Barc Cenedlaethol Eryri i godi'r lloches. Bydd angen sicrhau nad oes gwrthwynebiad gan Gyngor Gwynedd cyn symud ymlaen.

**9. Nadolig:** Dim datblygiad diweddar.

**10. Materion Cynllunio:**

NP5/53/164D Apêl Uned 5, Parc Menter Y Bala – derbyniwyd canlyniad yr apêl.

NP5/53/LB45B Cymeradwywyd cais ar gyfer newidiadau mewnol i Adeilad Rhestredig Canolfan Henblas.

**11. Materion Cyllid:**

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa gyfredol.
- ii. Cymeradwywyd talu anfonebau'r mis.
- iii. Cytunwyd i wneud y cyfraniadau canlynol i fudiadau a chymdeithasau:

Canolfan Y Plase £100; Cymdeithas Chwaraeon Y Bala a Phenllyn £1000; Teulu Berwyn £400; Y Gymdeithas Genweirio £250; Eisteddfod Gylch yr Urdd £200; Clwb Pêl-droed Ieuenctid £100; CFFI Meirionnydd £500; Theatr Bara Caws £100; Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (Llanelwedd) £100; Gŵyl Cerdd Dant Blaenau Ffestiniog £200.

12. **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr a ddywedodd bod y dyraniad ar gyfer cynnal llwybrau cyhoeddus yr un fath a llynedd. Disgwylir cymeradwyaeth cais cynllunio ar adeilad cofrestredig yr Henblas cyn cyflwyno'r cais am grant i'r loteri.
13. **Gohebiaeth:** Rhoddwyd ystyried i ohebiaeth parthed **cofgolofn Tom Ellis** a chytunwyd i ysgrifennu am arweiniad gan Keith O'Brien ac i ofyn i Gyngor Gwynedd am gopi o adroddiad ar gyflwr y gofgolofn.
11. **Asedau'r Cyngor:** derbyniwyd adroddiad ar eu cyflwr a chytunwyd i barhau gyda'r drefn bresennol o osod baneri gan fod rhai o ansawdd mwy parhaol yn ddrud iawn.
12. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref (mae angen rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Clerc)**
  - i. **Eira ar y pafin** – i'w drafod yn y cyfarfod nesaf.
  - ii. Yr angen am arwydd yn cyfeirio at Ffordd y Gerddi / Maes y gerddi – mae'r mater hwn wedi ei gyfeirio droeon at Gyngor Gwynedd.
  - iii. Nodwyd fod cwyno am broblemau barcio yn Y Parciau.